YSGOL PENRHYN-COCH

Y prynhawn olaf cyn hanner tymor unodd y plant, y rhieni a'r athrawon yn eu Cyfarfod Diolchgarwch yn Neuadd yr Ysgol. Y plant oedd yn gyfrifol am ran gyntaf y cyfarfod a thrwy gyfrwng unawdau a phartion,darlleniadau a gweddiau, bu iddynt fynegi eu diolch mewn modd effeithiol iawn. Gwahoddwyd y Parchedig Richard D. Williams o Woodstock, Penfro i roddi anerchiad eleni a gwnaeth hynny gydag urddas a graen. Son am y digyfnewid Dduw a wnaeth a hynny mewn ffordd syml ddiddorol a dealladwy. Daeth y cyfarfod i ben gyda'r Parchedig D.B.Francis, Ficer y Plwyf yn traddodi'r fendith. Dygwyd y ffrwythau a'r llysiau a ddaeth y plant i addurno'r neuadd i Ysbyty Heol y Gogledd, Aberystwyth a chyflwynwyd y casgliad i Gartrefi Dr. Barnardo.

Yn ystod y mis daeth Miss Kay Smith atom i wneud cyfnod o "Brofiad mewn Swydd" ac yn ddiweddarach bu Miss Jayne Jones yma'n treulio wythnos gyda Mrs. Evans yn nosbarth y babanod hyn. Bu i'r ddwy fwynhau eu hunain yn ein plith a phleser i ninnau oedd cael bod o gymorth iddynt hwythau wrth geisio dewis eu gwahanol yrfaoedd.